# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Cynllunio gwelliannau a gwybodaeth am welliannau*

### 14 Defnyddio gwybodaeth am berfformiad

(1) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig ddefnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu o dan adran 13 i gymharu ei berfformiad wrth arfer y swyddogaethau y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hwy â'r canlynol—

(a) ei berfformiad wrth arfer y swyddogaethau hynny neu rai tebyg yn ystod y blynyddoedd ariannol blaenorol; a

(b) cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl, perfformiad awdurdodau gwella Cymreig eraill ac awdurdodau cyhoeddus eraill wrth arfer y swyddogaethau hynny neu rai tebyg yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi ac yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol.

(2) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig—

(a) defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu o dan adran 13 i asesu a allai wella ei berfformiad wrth arfer ei swyddogaethau; a

(b) yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, penderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd gyda golwg ar wella ei berfformiad wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan yr adran hon ac adran 13, rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Statws**
Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 14 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16